| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 14 Mai 2024 |
| **Swyddog Arweiniol** | Catrin Roberts, Cefnogaeth Gorfforaethol: Pobl |
| **Awdur yr adroddiad** | Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| **Teitl** | Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol a Phenodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ar faterion yn ymwneud â phwyllgorau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Gan fod blwyddyn y cyngor newydd yn dechrau ym mis Mai mae'n briodol i'r Cyngor ystyried newidiadau yn y cydbwysedd gwleidyddol yn unol â gofynion statudol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn ystyried y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor.

3.2. Bod y Cyngor yn penodi 1 aelod i eistedd ar y Pwyllgor Safonau fel Cynghorydd Sir Ddinbych.

## 4. Manylion yr adroddiad

### Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol

4.1. Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Rheoliadau cefnogol yn gwneud darpariaeth ar gyfer cydbwysedd gwleidyddol yn aelodaeth y Cyngor i gael ei adlewyrchu yn aelodaeth pwyllgorau'r Cyngor (er nad yw'r Cabinet wedi ei gynnwys yn y gofyniad hwn o'r Ddeddf).

4.2. Mae aelodau'r Cyngor wedi eu rhannu yn grwpiau gwleidyddol gwahanol, gyda grŵp yn ddau neu fwy o gynghorwyr sydd yn arwyddo hysbysiad i'r awdurdod yn datgan eu bod yn dymuno cael eu cofnodi fel bod yn aelod o grŵp penodol. Mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i sicrhau bod nifer y seddi ar bwyllgorau penodol (y rheiny wedi'u hadnabod yn ôl statud) wedi eu dyrannu i bob grŵp gwleidyddol yn yr un gyfran â'r nifer o aelodau ym mhob grŵp o aelodaeth y Cyngor. Er enghraifft, os yw aelodaeth Grŵp A yn cynrychioli traean o aelodau'r Cyngor, byddai Grŵp A yn cael traean o'r seddi ar y pwyllgorau sydd yn gorfod cael cydbwysedd gwleidyddol. Mae modd rhoi'r gofyniad i un ochr ar yr amod na fydd aelod o'r Cyngor yn pleidleisio yn erbyn gwneud hynny.

4.3. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried o leiaf yn flynyddol sut y mae aelodaeth ei bwyllgorau yn berthnasol i faint y grwpiau. Dangosir ffigurau cydbwysedd gwleidyddol cyfredol ac aelodaeth y pwyllgorau  yn atodiadau 1 a 2 yn y drefn honno.

## Pwyllgor Safonau

4.4. Mae'r rheoliadau llywodraethu ynghylch cyfansoddiad Pwyllgor Safonau'r Cyngor yn gofyn am bwyllgor o rhwng pump a naw aelod sy'n cynnwys unigolion sy'n annibynnol o'r Cyngor (Aelodau Lleyg neu Annibynnol), Cynghorwyr Sir a Chynghorydd Cyngor Tref a Chymuned. Mae 7 aelod ar Bwyllgor Safonau Sir Ddinbych, mae 2 ohonynt yn gynghorwyr sir.

4.5. Roedd y Cynghorydd Hugh Irving wedi'i benodi fel un o'r ddau gynghorydd sir ar y Pwyllgor Safonau, ond camodd i lawr yn gynharach eleni oherwydd y gallai beri gwrthdaro â'i rôl fel arweinydd grŵp. Mae'r gwrthdaro posibl yn codi o swyddogaethau statudol newydd y Pwyllgor Safonau i fonitro cydymffurfiaeth arweinwyr grwpiau gwleidyddol o ran eu dyletswydd gyfreithiol newydd i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau eu grŵp.

4.6. Felly, gofynnir i'r Cyngor benodi 1 cynghorydd sir i'r sedd wag ar y Pwyllgor Safonau. Mae'r pwyllgor yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn ac ni wneir y penodiad dan reolau cydbwysedd gwleidyddol.

### Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

4.7 Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn darparu'r egwyddorion ar gyfer dyrannu Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu.

4.8 Er mwyn dynodi faint o swyddi cadeiryddion pwyllgorau Craffu sydd i'w dyrannu i'r grwpiau gweithredol, mae angen rhannu cyfanswm aelodaeth y grŵp neu grwpiau ar y Cabinet â chyfanswm aelodaeth y Cyngor ac yna lluosi'r rhif hwn â nifer y Pwyllgorau Craffu (sef 3). Os nad yw'n rhif cyfan, mae'r ffigwr yn cael ei dalgrynnu i lawr.

4.9 Byddai'r swyddi Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu sy'n weddill yn cael eu rhoi i'r grwpiau nad ydynt ar y Cabinet a byddai dyraniadau'r grwpiau'n cael eu pennu drwy ddefnyddio cyfran o bob grŵp nad ydynt ar y Cabinet i gyfanswm yr aelodau nad ydynt ar y Cabinet.

4.10 Nid yw'r Mesur na'r canllawiau statudol cysylltiedig yn gwneud darpariaethau ar gyfer newid neu ail-benodi cadeiryddion craffu, ac eithrio pan fo'r cyfansoddiad gwleidyddol yn newid yn y Cabinet neu lle mae swydd cadeirydd craffu yn wag am ryw reswm. Felly mae penodi cadeiryddion am flwyddyn ddinesig newydd yn fater i'r grwpiau gwleidyddol i'w ystyried ac i roi gwybod am unrhyw newidiadau.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae trefniadau cydbwysedd gwleidyddol yn ganolog i'r systemau democrataidd a phwyllgorau sy'n elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau a nodwyd yn codi o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn i gynnal adolygiad blynyddol o ddyraniad seddi pwyllgor yn unol â gofynion cydbwysedd gwleidyddol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorir â'r Cyngor a'r grwpiau gwleidyddol yn y Cyngor ar y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes rhywbeth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Byddai methu ag adolygu aelodaeth pwyllgorau, llenwi swyddi gwag ac ati, yn niweidiol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn mynd yn groes i ofynion statudol.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011; Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972; Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001.